# Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029

## Ein gweledigaeth ar gyfer treftadaeth

### Cyflwyniad

Yn 2023 mlynedd fe wnaethom ddisgrifio ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033, i fuddsoddi £3.6biliwn biliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, lleoedd a chymunedau. Cynlluniwyd ein  dull hirdymor i ganiatáu i ni ymateb i fyd sy'n newid a chefnogi cymunedau ledled y DU i gysylltu â'u treftadaeth. Fe wnaethom ymrwymo i gyhoeddi cynlluniau cyflwyno tair blynedd i amlinellu sut y byddem yn gwneud hyn. Dyma ein hail gynllun cyflwyno, a fydd yn arwain ein gwaith rhwng 2026 a 2029.

#### Treftadaeth 2033 – y tair blynedd gyntaf

**Yn ystod tair blynedd gyntaf Treftadaeth 2033 fe wnaethom:**

- gyflwyno Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi'u symleiddio gan gefnogi ystod eang o brosiectau treftadaeth sy'n adlewyrchu ein pedair egwyddor fuddsoddi
- cyflwyno trothwy grant uwch o £10miliwn, gan alluogi buddsoddi ar raddfa fwy mewn prosiectau treftadaeth trawsnewidiol
- cefnogi 1,750 o brosiectau gyda buddsoddiad o £885m
- lansio pum menter strategol newydd gyda'r nod o fynd i'r afael â heriau treftadaeth hirdymor ar raddfa fawr, gan gynnwys:
    - Treftadleoedd: buddsoddi £200m dros 10 mlynedd i hybu balchder bro a chysylltiad â threftadaeth
    - Cysylltiadau Tirwedd: £150m dros 10 mlynedd ar gyfer y tirweddau a drysorir fwyaf yn y DU
    - Trefi a Dinasoedd Natur: partneriaeth newydd a £15m o ariannu i wella mannau gwyrdd trefol
    - Addoldai: buddsoddi o leiaf £15m ar brosiectau strategol i achub treftadaeth mewn angen ar gyfer cymunedau ar draws y DU
- Dathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed a'i heffaith anhygoel ar fywyd a threftadaeth ar draws y DU

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflwyno uchelgeisiau ein pedair egwyddor fuddsoddi: achub treftadaeth; diogelu'r amgylchedd;

cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad; a chynaladwyedd sefydliadol.

Yng nghyfnod cyflwyno cyntaf (2023–2026) ein strategaeth, fe wnaethom lansio proses Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol newydd, symlach, gan gefnogi 4,125 o geisiadau grant o bob cwr o'r DU. Rydym wedi ymrwymo £885m o arian gan y Loteri Genedlaethol i 1,750 o brosiectau i gefnogi'r lleoedd, y casgliadau, y diwylliannau a'r atgofion o'r gorffennol y mae pobl yn eu gwerthfawrogi ac eisiau eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Fe wnaethom hefyd lansio pum menter strategol ac rydym eisoes wedi ymrwymo dros £134m i 89 o grantiau i gefnogi heriau treftadaeth hirdymor. Mae'r buddsoddiad strategol hwn yn helpu i ymwreiddio treftadaeth yng nghynlluniau trefi, dinasoedd ac ardaloedd ar draws y DU; gwella mynediad at ein treftadaeth naturiol, ac ansawdd y dreftadaeth honno; cefnogi treftadaeth ragorol fel addoldai; a mynd i'r afael â heriau cyffredin, ar draws y sector.

Rydym wedi buddsoddi mewn rhaglenni sy'n caniatáu i bobl warchod a mwynhau'r dreftadaeth sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys gweithio gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i gefnogi 19 o Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth sy'n grymuso cymunedau, elusennau a grwpiau treftadaeth i ailddychmygu ac ailbwrpasu eu hadeiladau treftadaeth. Rydym wedi cefnogi sefydliadau gan gynnwys amgueddfeydd a grwpiau natur a arweinir gan wirfoddolwyr i weithio mewn ffyrdd newydd a chynaliadwy, drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'n Cronfa Arloesi Treftadaeth bwrpasol. Ac rydym wedi gweithio gyda chymunedau a busnesau lleol i roi bywyd newydd i dirnodau treftadaeth hoff annwyl drwy ein rhaglen Menter Treftadaeth.

## Treftadaeth 2033 - y tair blynedd nesaf

**Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn:**

- buddsoddi cyfanswm o tuag **£1.46bn** mewn treftadaeth
- buddsoddi **dros £130m** mewn mentrau strategol
- buddsoddi **o leiaf £20m** mewn prosiectau sydd â'r nod o ennyn diddordeb pobl ifanc yn y byd treftadaeth
- dwysau buddsoddi yn y **lleoedd sydd ei angen fwyaf**
- gwneud tua **95%** o benderfyniadau grant yn yr ardal neu'r wlad lle mae'r ymgeisydd wedi'i leoli
- parhau i sicrhau bod ariannu ar gael ar gyfer treftadaeth ym **mhob awdurdod lleol** yn y DU

Fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU, sy'n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym mewn sefyllfa unigryw i barhau i helpu pobl i gyrchu treftadaeth ac adrodd eu storïau. Dros y tair blynedd nesaf, bydd tua 95%

o'n penderfyniadau grant yn parhau i gael eu gwneud yn lleol, gan staff a phwyllgorau sydd wedi'u lleoli yn ein tair ardal o Loegr ac ar draws y tair gwlad ddatganoledig. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn mentrau strategol sy'n cefnogi treftadaeth ar raddfa fawr, o adfer tirweddau i ennyn diddordeb pobl ifanc a datblygu sgiliau, nawr ac ar gyfer y dyfodol.

Mae ymgeiswyr, derbynyddion grantiau a phartneriaid wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a symlrwydd Treftadaeth 2033. Ac mae cyhoeddi ein hadroddiad effaith cyntaf yn dangos bod y prosiectau rydym wedi'u hariannu hyd yma yn cefnogi ein hegwyddorion buddsoddi yn gryf. Rydym yn gwybod bod effaith bwrpasol ar dreftadaeth yn gofyn am ymrwymiad hirdymor, ond eisoes yn y cyfnod cynnar hwn, mae ein hadborth gan randdeiliaid a'n data ar effaith yn rhoi hyder i ni ein bod ar y trywydd iawn, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n pedair blaenoriaeth gyflwyno: arian grant; mentrau strategol; cydweithio  a phartneriaethau; ac effaith a gwella.

Wrth i ni adeiladu ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud ers 2023, byddwn yn parhau i fod yn hyblyg, gan ymateb yn gyflym i amgylchiadau allanol sy'n newid a diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau. Yn y cynllun cyflwyno hwn fe welwch dystiolaeth o barhad ac addasu, gan gynnwys:

- cynlluniau ar gyfer buddsoddi pellach yn y lleoedd sydd angen cefnogaeth fwyaf i ddatblygu eu treftadaeth, gan gynnwys ein 15 Treftadle presennol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt
- cefnogaeth ychwanegol a anelir at bobl ifanc i'w helpu i ymgysylltu â threftadaeth ac adeiladu sgiliau hirdymor a fydd yn cefnogi treftadaeth yn y dyfodol
- buddsoddi mewn mynediad a thwf drwy gefnogi prosiectau arloesol sy'n creu cyfleoedd gwirfoddoli, cyflogaeth a hyfforddiant, ac sy'n ailddefnyddio adeiladau hanesyddol
- cymorth i sefydliadau addasu i heriau ansefydlogrwydd byd-eang fel eu bod yn ddigon cydnerth i warchod ein treftadaeth ragorol a'i gwneud yn hygyrch yn y tymor hir

Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi i gyflwyno'r cam nesaf hwn o Treftadaeth 2033.

**– Bwrdd Ymddiriedolwyr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol**

# Sut rydym yn gweithio

## Ein gweledigaeth

**Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.**

I gyflawni hyn, mae ein strategaeth wedi'i hategu gan gynlluniau cyflwyno tair blynedd. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni fod yn hyblyg, addasu i anghenion y sector treftadaeth ac ymateb i ddigwyddiadau a chyfleoedd allanol dros 10 mlynedd Treftadaeth 2033.

Mae'r cynllun cyflwyno hwn yn nodi ein cerrig milltir allweddol a sut y byddwn yn buddsoddi arian y Loteri Genedlaethol ar draws 2026–2029. Caiff ei ddiweddaru'n flynyddol fel rhan o'n prosesau cynllunio busnes.

## Ein hegwyddorion buddsoddi

Mae ein pedair egwyddor fuddsoddi wrth wraidd ein huchelgeisiau ar gyfer treftadaeth ac maent yn sail i'n holl benderfyniadau grant:

- **Achub treftadaeth:** gwarchod a gwerthfawrogi treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol.
- **Diogelu'r amgylchedd**: cefnogi adferiad byd natur a chynaladwyedd amgylcheddol.
- **Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad:** cefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.
- **Cynaladwyedd sefydliadol:** cryfhau treftadaeth er mwyn iddi addasu a bod yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau.

Rydym yn gofyn i brosiectau a ariannwn gymryd y pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth yn eu ceisiadau.

## Ein hymagwedd

Mae'r rhan fwyaf o'n harian Treftadaeth 2033 yn cael ei ddarparu drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bwriedir iddynt fod yn eang ac yn gynhwysol a gallant gefnogi ystod eang o brosiectau treftadaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau lleol. Ein nod yw gwella ein prosesau ymgeisio a chyflwyno grantiau i gwsmeriaid yn barhaus trwy ymchwil defnyddwyr rheolaidd ac adborth arall.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'r presennol, ac ar draws lleoedd yn ogystal â phrosiectau unigol, rydym hefyd yn buddsoddi mewn:

- **mentrau strategol** sy'n mynd i'r afael â heriau ar raddfa fawr neu draws-diriogaethol, gyda ffocws ar le, tirwedd a natur, treftadaeth mewn angen ac ymateb i gyfleoedd ac argyfyngau
- **partneriaethau** sy'n dwyn ynghyd arbenigedd ac adnoddau, gan greu effaith fwy pwerus a pharhaol

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio. Maent wedi'u hymwreiddio ar draws ein cynllunio strategol a busnes a'n dulliau arwain a rheoli:????

- **Cynhwysol** o bob agwedd ar dreftadaeth, pobl a chymunedau.
- **Uchelgeisiol** ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n treftadaeth.
- **Cydweithredol** trwy weithio a dysgu gyda'n gilydd.
- **Ymddiriedir ynom** am ein cyfanrwydd, ein harbenigedd a'n barn.

### Rôl Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU, mae gennym y fraint o fuddsoddi arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiectau ar draws y DU sy'n cysylltu pobl a chymunedau â'u treftadaeth. Rydym yn dyfarnu 20% o'r incwm Achosion Da a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Rydym hefyd yn dosbarthu ariannu treftadaeth sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion buddsoddi ar ran llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig.

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n atebol i Senedd y DU drwy'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r adran hon yn gosod ein Cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y DU ac ar gyfer Lloegr, ac mae gennym hefyd Gyfarwyddiadau polisi gan lywodraethau datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon (mae Cyfarwyddiadau Polisi Gogledd Iwerddon yn aros am gymeradwyaeth weinidogol).

Mae ein penderfyniadau am geisiadau a pholisïau unigol yn gwbl annibynnol o lywodraeth y DU.

Mae gennym dimau a phwyllgorau sy'n gweithio ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae 95% o'n penderfyniadau grant yn cael eu gwneud yn lleol, gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau rydym yn eu hariannu.

Bwrdd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yw ein corff cyfreithiol ar gyfer gweinyddu a goruchwylio'r holl arian a freinir ynom. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 i weinyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

Yn ôl i'r top

---

---

Nesaf Gosod y cyd-destun